



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.



**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**  
**Dyfed-Powys**  
**Police and Crime Commissioner**

## **Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu**

Gruff Ifan

Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Mehefin 2023

## Cefndir

Cyflwynwyd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (CHTh) gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol i ddarparu atebolrwydd cryfach a mwy tryloyw i'r heddlu. Mae ganddynt ddyletswyddau clir i ddarparu gwasanaethau ar gyfer lleihau trosedd a'i heffaith ar gymunedau a dioddefwyr.

Swyddogion etholedig ydynt sy'n gyfrifol am sicrhau ardal blismona effeithiol ac effeithlon, a bod yr heddlu lleol yn bodloni anghenion y gymuned.

Rôl Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (CHTh) yw bod yn llais y bobl a dal yr heddlu i gyfrif. Maent yn gyfrifol am blismona yn ei gyfanrwydd ac yn gosod y cyfeiriad a'r gyllideb ar gyfer plismona. Mae hyn yn cynnwys:

- Sefydlu'r blaenoriaethau ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys;
- Cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throseddu;
- Ymgysylltu â chymunedau a chynrychioli llais y cyhoedd ar faterion plismona;
- Gweithio'n agos â phartneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol;
- Cefnogi dioddefwyr a dwyn pobl i gyfiawnder;
- Comisiynu gwasanaethau ar gyfer gwneud cymunedau'n fwy diogel a chefnogi'r rhai sy'n agored i niwed;
- Penodi'r Prif Gwnstabl a'i ddiswyddo os oes angen;
- Ymdrin â chwynion a materion disgyblu yn erbyn y Prif Gwnstabl;
- Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif; a
- Sefydlu cyllideb flynyddol yr Heddlu a lefel y praesept

Mae'r Comisiynydd wedi cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer Dyfed-Powys sy'n nodi'r weledigaeth i gadw cymunedau Dyfed-Powys yn ddiogel, gan gynnal hyder a ffydd yn ein heddlu a'r system cyfiawnder troseddol yn gyffredinol. Rhain hefyd yw'r egwyddorion arweiniol ar gyfer Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r ffordd yr ydym yn bwriadu cyfathrebu ac ymgysylltu â chymunedau Dyfed-Powys.

## Gweledigaeth

*Trwy ein cyfathrebiadau a'n hymwneud ystyrton, pellgyrhaeddol, bydd llais ein cymunedau wrth galon ein holl waith ac yn gyrru penderfyniadau strategol.*

Mae cyfathrebu ac ymgysylltu â'n poblogaeth leol yn hollbwysig ar gyfer cyflenwi ein gweledigaeth. Yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh), yr ydym eisiau i'n cymunedau a thrigolion Dyfed-Powys gymryd rhan wirioneddol yn ein gwaith.

Mae'r strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu hon yn amlinellu'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â'n cymunedau er mwyn cefnogi CHTh i gyflawni ei ddyletswyddau statudol a'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Heddlu a Throseddu 2021-2025. Mae'n nodi ein hamcanion a'n hegwyddorion cyfathrebu ac ymgysylltu, a'r meysydd cyfathrebu ac ymgysylltu allweddol y mae angen inni ganolbwyntio arnynt.

## Nodau ac Amcanion

Ein nodau o fewn y strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu hon yw:

- Sefydlu ac ymgorffori ymagwedd ymgysylltu a chyfathrebu sy'n glir, yn gyson ac yn gynhwysol er mwyn cefnogi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'r Swyddfa i gyflawni ein gweledigaeth, nodau ac amcanion.
- Datblygu mecanweithiau a strwythurau effeithiol yn barhaus ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu ystyrllon a chynaliadwy gyda rhanddeiliaid allweddol, partneriaid, y cyhoedd a grwpiau cymunedol lleol, a staff o fewn SCHTh a HDP.
- Sicrhau bod safbwyntiau, sylwadau a barn y cyhoedd a'n cymunedau lleol yn gyrru ein penderfyniadau strategol.
- Gwella ein dealltwriaeth o'n cymunedau amrywiol er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau yn addas ar gyfer y diben, a bod gan ein holl gymunedau lais mewn plismona<sup>1</sup>

Er mwyn cyflawni ein nodau, bydd ein hamcanion yn canolbwyntio ar ymgynghori, hysbysu a chynnwys ein cymunedau. Bydd ymgynghori, hysbysu a chynnwys yn cynyddu hyder y cyhoedd ac yn arwain at i) gwell dealltwriaeth gyhoeddus; ii) gwell mewnbwn cyhoeddus; a iii) gwell perthnasau cyhoeddus.

- Ymgynghori â chymunedau lleol a'u cynnwys wrth graffu ar wasanaethau lleol er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau (DPA 1.3)
- Hysbysu cymunedau am waith CHTh a'r Prif Gwnstabl; beth sy'n cael ei wneud a rhoi adborth iddynt, fel ein bod ni'n sefydlu enw da gyda rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd fel sefydliad ymatebol sy'n perfformio'n dda (DPA 1.4)
- Rhoddir cyfle i holl aelodau'n cymunedau i ymgysylltu â'r Comisiynydd drwy amryw o ddulliau (DPA 1.5)
- Gwella ein dealltwriaeth o'n cymunedau amrywiol er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau'n addas ar gyfer diben, a bod gan ein holl gymunedau lais mewn plismona (KPI 2.3)
- Darparu a hyrwyddo dulliau cyfathrebu amgen ar gyfer cael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau a ddarperir gan SCHTh (DPA 2.6)

Bydd ymgynghori â'n rhanddeiliaid, eu hysbysu a'u cynnwys yn arwain at well dealltwriaeth gyhoeddus o waith CHTh a'r Swyddfa, gwell mewnbwn cyhoeddus i'n gwaith, a gwell perthnasau cyhoeddus, ac fe ddylai gynyddu hyder y cyhoedd.

---

<sup>1</sup> Amcan 3 o fewn ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#)

## Dulliau

Bydd ein dulliau'n cwmpasu technegau, strategaethau a sianeli amrywiol a fydd yn ein galluogi i ymgysylltu â'r cyhoedd cyffredinol a rhanddeiliaid allweddol.

O gysylltiad wyneb yn wyneb a gohebiaeth ysgrifenedig i lwyfannau digidol ac arfau amlgyfrwng, bydd ein dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu'n darparu llwybrau ar gyfer rhannu gwybodaeth, adeiladu perthnasau cadarnhaol, a grymuso cymunedau.

Mae'r prif ddulliau'n cynnwys:

- **Arolygon**

Bydd arolygon ar-lein yn rhoi cyfle i nifer fawr o bobl sylwi ar wybodaeth benodol a materion sy'n berthnasol ar gyfer gwaith CHTh a HDP. Gall arolygon ar-lein gyrraedd pobl sy'n annhebygol o ymgysylltu â ni drwy ddulliau traddodiadol. Byddwn yn sicrhau ein bod ni'n osgoi eithrio pobl sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd.

- **Grŵp Ffocws**

Pan yn briodol ac yn ymarferol gwneud hynny, byddwn yn ymgysylltu drwy grwpiau ffocws â grwpiau cymunedol, cyfleusterau addysgol, elusennau a busnesau i roi adborth ansoddol ar arolygon. Maent yn caniatáu ar gyfer trafodaeth fanwl ar bwnc penodol, gan ganiatáu gwell dealltwriaeth o farn pobl.

- **Fforwm Ymgysylltu ag Ieuenctid**

Sefydlwyd y Fforwm Ymgysylltu ag Ieuenctid yn 2018 er mwyn helpu i ddatblygu cyfleoedd ymgysylltu clir ar ein cyfer gyda Phobl Ifainc ledled yr ardal Heddlu a rhoi cyfle i bobl ifainc ddweud eu dweud am blismona a throsedd. Y mae hefyd yn ffordd o sicrhau y gall pobl ifainc ddylanwadu ar benderfyniadau a'u herio drwy eu cynnwys ym mheth o'r gwaith.

- **Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr**

Sefydlwyd y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr mewn partneriaeth ag asiantaethau cyfiawnder troseddol ym mis Hydref 2020. Mae aelodau o'r Fforwm yn ein helpu i osod dioddefwyr wrth galon y system cyfiawnder troseddol. Mae eu barn yn helpu i sicrhau bod llais y rhai sydd â phrofiadau bywyd yn dylanwadu ar ddatblygiad gwasanaethau dioddefwyr a'r gwaith o graffu arnynt.

- **Grŵp Ymgynghorol Annibynnol**

Mae Grŵp Ymgynghorol Annibynnol Heddlu Dyfed-Powys yn darparu rôl werthfawr cyfaill beirniadol i'r Gwasanaeth Heddlu a SCHTh. Mae'n fforwm lle y gall aelodau o'r cyhoedd ein cyngori ynghylch materion penodol a nodir gan yr heddlu a SCHTh.

Mae'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn cynnwys trawsgynrychiolaeth o'n cymunedau amrywiol o ran oed, rhyw, aibledd, anabledd, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol a'r iaith Gymraeg.

- **Cyfarfodydd cyhoeddus – cyfarfodydd rhagweithiol ac ymatebol**

Cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus, megis Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu, mewn man cyhoeddus y tu allan i ystâd SCHTh a HDP. Maent yn rhoi cyfle i'r rhai sy'n bresennol weld y sefydliad ar waith yn eu hardal ac yn caniatáu iddynt glywed am faterion a phynciau a allai fod o ddiddordeb i bobl leol.

Mae mynd i gyfarfodydd cyhoeddus lleol a drefnir gan randdeiliaid yn caniatáu inni ymgysylltu â phobl leol ar faterion sy'n benodol i'w cymunedau, ac ymateb i'w hanghenion a'u disgwyliadau.

- **Bwletin**

Ar hyn o bryd, yr ydym yn cyhoeddi e-fwletin misol i dynnu sylw at waith parhaus CHTh a'r Swyddfa, yn ogystal â rhannu negeseuon allweddol gan randdeiliaid allweddol a HDP. Wrth i allu a medrau'r tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu ddatblygu, byddwn yn anelu i gynhyrchu bwletin pythefnosol/wythnosol.

- **Gwefan**

Ein gwefan fydd ein 'ffenstr siop'. Bydd yn darparu adnodd hygyrch a gwerthfawr i bobl sydd eisiau cael rhagor o wybodaeth am y CHTh a gwaith y Swyddfa. Defnyddir y wefan er mwyn cynorthwyo â thryloywder, a chyhoeddi penderfyniadau a dogfennau allweddol i sicrhau ein bod ni'n bodloni gofynion y Gorchymyn Gwybodaeth Benodedig.

Yn y tymor byr, byddwn yn blaenoriaethu datblygu gwefan newydd, a bydd y rhan fwyaf o'n tactegau Cyfathrebu ac Ymgysylltu'n anelu i yrru traffig y wefan, lle bydd pobl yn canfod gwybodaeth ychwanegol bellach.

- **Digwyddiadau a sioeau'r haf, gan gynnwys Sioe Frenhinol Cymru ac Eisteddfodau;**

Byddwn ni'n defnyddio digwyddiadau a sioeau'r haf i ymgysylltu â'r cyhoedd a phartneriaid. Byddant yn gyfle i wrando ar bryderon lleol a chenedlaethol a'u trafod, rhannu negeseuon allweddol gan SCHTh a HDP, a chodi proffil CHTh ac effaith gadarnhaol gwaith y Swyddfa ar fywydau dyddiol ein preswylwyr. Byddwn ni hefyd yn defnyddio'r digwyddiadau i recriwtio gwirfoddolwyr ar gyfer ein holl gynlluniau gwirfoddoli, y fforwm ymgysylltu ag ieuenctid a'r fforwm ymgysylltu â dioddefwyr.

- **Cyfyngau cymdeithasol** – trwy Twitter, Facebook, Instagram ac YouTube ar hyn o bryd.

Bydd llwyfannau cyfyngau cymdeithasol yn rhoi cyfleoedd inni gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach a chynyddu ymwybyddiaeth brand. Byddwn ni'n defnyddio'r Cyfyngau Cymdeithasol i rannu cynnwys deniadol, rhyngweithio â'n cynulleidfa ac adeiladu perthnasau, ac ymhelaethu ar waith CHTh a'r Swyddfa.

- **Fideo**

Bydd cynhyrchu fideos byr sy'n tynnu sylw at brosiectau a gweithgareddau allweddol CHTh a SCHTh yn rhoi cyfle effeithiol gweledol creadigol i ddweud stori, a chyfleu negeseuon.

- **Cyfyngau Traddodiadol (Teledu, Radio, Papurau Newydd)**

Byddwn yn cyhoeddi ein holl ddatganiadau i'r wasg ar dudalennau newyddion ein gwefan. Byddwn yn rhannu'r eitemau newyddion hyn ar ein sianeli cyfyngau cymdeithasol, cyn eu rhannu â'r cyfyngau, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn clywed unrhyw negeseuon allweddol ac eitemau newyddion wrthym ni yn y lle cyntaf, yn hytrach na dibynnu ar ddulliau/llwyfannau eilaidd.

Byddwn yn rhoi cyfleoedd i'r cyfyngau gyfweld â'r CHTh mewn perthynas â'n heitemau newyddion, ac yn rhoi datganiadau ymatebol iddynt a sylwadau mewn ymateb i unrhyw gais, gan sicrhau ein bod ni'n cynnal perthynas dda gydag unrhyw newyddiadurwyr neu ohebwy'r lleol.

Byddwn ni'n cynnig colofnau papur newydd misol i bapurau newydd lleol a fydd yn cynnig cyfleoedd i dynnu sylw at astudiaethau achos penodol neu fentrau y mae'r CHTh wedi bod yn rhan ohonynt.

- **Diwrnodau Ymgysylltu Cymunedol**

Byddwn ni'n cynnal diwrnodau Ymgysylltu Cymunedol misol â'r nod o hyrwyddo cydweithio, ymddiriedaeth a thryloywder rhwng y CHTh, yr Heddlu a'n cymunedau. Mae'r diwrnodau Ymgysylltu'n ffordd o gynnwys y cyhoedd wrth lunio a gwella mentrau a strategaethau plismona lleol. Byddwn ni'n cynnwys rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys elusennau a sefydliadau lleol, gwirfoddolwyr a chynrychiolwyr cymunedol.

- **Cymorthfeydd Cymunedol**

Byddwn ni'n trefnu cymorthfeydd cymunedol ledled yr ardal heddlu a fydd yn rhoi cyfle i ymgysylltu â sefydliadau lleol, elusennau a grwpiau cymunedol, ac yn targedu grwpiau a dangynrychiolir a grwpiau lleiafrifol. Bydd y rhain yn gyfle i rannu gwybodaeth am unrhyw arian sydd ar gael i'r gymuned drwy'r CHTh, yn ogystal â chyfleoedd i wirfoddoli. Bydd y cymorthfeydd hefyd yn gyfle i fusnesau a phreswylwyr lleol fynegi unrhyw bryderon wrth y CHTh a SCHTh. Byddwn ni'n defnyddio'r cymorthfeydd cymunedol i nodi gweithgareddau penodol i'w trefnu fel rhan o Ddiwrnodau Ymgysylltu Cymunedol CHTh.

- **Diwrnodau Agored ym Phencadlys yr Heddlu ac ystadau Heddlu Dyfed-Powys (HDP)**

Mae cynnig cyfleoedd i randdeiliaid ymweld â Phencadlys yr Heddlu a'n hystâd yn rhoi cyfle i bobl weld â'u llygaid eu hunain sut mae HDP yn gweithredu. Maen nhw'n caniatáu i bobl siarad yn uniongyrchol ag arbenigwyr mewn maes pwnc penodol.

- **Cynadleddau**

Ers 2017, yr ydym wedi cynnal Cynhadledd Dydd Gŵyl Dewi flynyddol sy'n canolbwyntio ar themâu a meysydd cyfiawnder troseddol eang. Yr ydym hefyd wedi gweithio gyda'n Fforwm Ieuenctid er mwyn trefnu cynadleddau sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau sy'n ymwneud â phobl ifainc.

Ein nod wrth gynnal cynadleddau yw rhoi llwyfan ar gyfer rhannu gwybodaeth, syniadau ac arferion gorau, yn ogystal â darparu cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio.

- **Cynlluniau Gwirfoddoli**

Mae ein cynlluniau gwirfoddoli'n cynnwys Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, Ymwelwyr Lleyg Er Lles Anifeiliaid, ac aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd.

Mae ein gwirfoddolwyr yn gweithio gyda ni i helpu i gefnogi pobl sy'n agored i niwed, sicrhau proffesiynoldeb o fewn HDP, rhoi hyder bod safonau uchel yn cael eu cynnal, diogelu hawliau pobl, a galluogi herio os oes rhywbeth o'i le.

## **Egwyddorion Allweddol**

### **1. Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu Cyhoeddus yng Nghymru**

Yr ydym wedi ymrwymo'n llwyr i ddilyn yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu Cyhoeddus yng Nghymru. Bydd yr holl egwyddorion canlynol yn cael eu cynnwys yn ein hymagwedd tuag at ein gwaith, ein tasgau dyddiol a'n rhaglen hirdymor o ymgysylltu a chyfathrebu:

1. Cynllunio'r ymgysylltu yn effeithiol i wneud gwahaniaeth;
2. Annog a galluogi pawb yr effeithir arnynt i gymryd rhan, os ydynt yn dymuno;
3. Cynllunio a chyflawni'r ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol;
4. Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol;
5. Bydd yr wybodaeth a ddarperir yn ddi-jargon, yn briodol ac yn ddealladwy;
6. Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan;
7. Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol;
8. Rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol;
9. Mae pobl yn cael gwybod am effaith eu cyfraniad; a
10. Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses ymgysylltu.

Gweler Atodiad B am ragor o fanylion ynghylch pob egwyddor unigol.

### **2. Safonau'r Gymraeg**

Mae'r Gymraeg yn gonglfaen i ethos SCHTh a HDP wrth gynrychioli'r fro Gymraeg. I'n cefnogi ni wrth hyrwyddo'r Gymraeg, rydym yn cofleidio'n llawn y newidiadau sy'n ofynnol ohonom trwy Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Byddwn yn ymroi i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg wrth ymgysylltu â'n cymunedau.



### 3. Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Yn 2011, daeth y ddyletswydd cydraddoldeb cyhoeddus i rym. Cafodd ei chreu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn ôl y ddeddf, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried pob unigolyn wrth iddynt gyflawni eu gwaith o ddydd i ddydd, megis llunio polisiau, cyflenwi gwasanaethau, ac mewn perthynas â'u gweithwyr eu hun. Mae'n annog gyrff cyhoeddus i ddeall sut y bydd pobl wahanol yn cael eu heffeithio gan eu gweithgareddau, fel bod eu polisiau a'u gwasanaethau'n briodol a hygyrch i bawb ac yn bodloni anghenion gwahanol bobl. Yn unol â'n [Cynllun Cydraddoldeb Strategol \(2020-2024\)](#), byddwn ni'n ystyried y ddyletswydd cydraddoldeb yn y ffyrdd yr ydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â'n poblogaeth leol a'n haelodau staff, er mwyn *"sicrhau bod pob aelod o'n cymuned yn gwybod eu hawliau."*

### 3. Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Heddlu Dyfed-Powys (HDP)

Wrth ymgymryd â gwaith ymgysylltu a chyfathrebu â'n cymunedau, byddwn ni hefyd yn ystyried ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Thîm Cyfathrebu Corfforaethol Heddlu Dyfed-Powys (HDP), a chyfleodd ar gyfer gwaith partneriaeth ehangach. Pan fydd hynny'n briodol, byddwn ni'n gweithio'n agos â HDP a phartneriaid eraill er mwyn cynnal gweithgarwch ymgysylltu cymunedol, cyfathrebu ac ymgynghoriadau ar y cyd.

## Cynulleidfa Darged

Cyfuniad yw'r rhain o breswylwyr lleol, llywodraeth leol a chenedlaethol, y sector cyhoeddus, y sector preifat, y trydydd sector, dioddefwyr trosedd, gweithwyr a rhanddeiliaid yn y cyfryngau, gan gynnwys:

- **Preswylwyr**  
Aelod etholedig o'r cyhoedd yw'r CHT, ac ef yw llais y cyhoedd, felly mae'n hollbwysig ein bod ni'n ymgysylltu â phreswylwyr fel ein bod ni'n deall eu hanghenion a'u disgwyliadau.
- **Perchnogion busnes**  
Byddwn ni'n ymgynghori ac yn ymgysylltu â pherchnogion busnes gan eu bod nhw'n ffurfio rhan o'n cymunedau, ac mae angen inni geisio eu barn a'u safbwyntiau am faterion plismona sy'n lleol iddyn nhw.
- **Dioddefwyr Trosedd**  
Byddwn ni'n ymgysylltu â dioddefwyr er mwyn sicrhau bod llais dioddefwyr yn dylanwadu ar y gwaith o graffu ar ddarpariaeth gwasanaeth, ac er mwyn cefnogi cyflenwi gwasanaeth neilltuol ar gyfer dioddefwyr. Mae'n hollbwysig fod ein hymgysylltu'n effeithiol ac ystyrion, a'i fod yn gwneud gwahaniaeth.
- **Troseddwyr**

Bydd ymgysylltu â throseddwr yn galluogi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i weithredu mewn ffordd fwy cyfannol a chynhwysol wrth fynd i'r afael â throsedd. Drwy ystyried anghenion a safbwyntiau troseddwr, gallwn weithio tuag at system cyfiawnder troseddol decach a mwy effeithiol sy'n canolbwyntio ar adsefydlu, atal a lles cymunedol.

- **Sefydliadau ieuenctid ac ysgolion**

Byddwn yn ymgysylltu â phobl ifainc fel ein bod ni'n medru deall y ffactorau risg sy'n arwain pobl ifainc at drosedd ac anhrefn yn well, a'u helpu i wneud dewisiadau cadarnhaol yn eu bywydau. Byddwn yn canolbwyntio ein gwaith ymgysylltu ag ieuenctid drwy Lysgenhadon Ifainc CHTH, sy'n ffurfio ein Fforwm Ieuenctid.

- **Grwpiau a dangynrychiolir**

Yr ydym wedi ymrwmo i ymgysylltu'n llawn â holl sectorau'r gymuned, ac eisiau galluogi'r cyhoedd i ymgysylltu'n hawdd â ni. Rhaid nodi a mynd i'r afael â rhwystrau ar gyfer gwahanol grwpiau. Byddwn ni wedyn yn mabwysiadu ein methodoleg a'n hymagwedd tuag at ymgysylltu a chyfathrebu er mwyn sicrhau bod gan gynrychiolwyr o bob grŵp o fewn ein cymunedau'r cyfle i ddweud eu dweud.

- **Swyddogion a staff HDP**

Byddwn ni'n sicrhau ymgysylltu effeithiol â swyddogion a staff yn fewnol, gan fod posibilrwydd y bydd gwaith CHTH yn effeithio ar sawl agwedd o'u gwaith. Byddwn ni hefyd yn ymgysylltu'n fewnol er mwyn nodi gweithgarwch ymgysylltu cymunedol ar y cyd yn y dyfodol.

- **Ein Gwirfoddolwyr – aelodau'r Panel Sicrhau Ansawdd, Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, ac Ymwelwyr Lleyg Er Lles Anifeiliaid**

Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rhan bwysig iawn mewn gwneud ein cymunedau'n ddiogel, ac mewn helpu CHTH i gyflenwi ei weledigaeth, fel y'i nodir yn y Cynllun Heddlu a Throseddu. Byddwn yn ymgysylltu â sefydliadau gwirfoddol er mwyn sicrhau bod gennym gynrychiolaeth amrywiol o blith cymunedau yn holl gynlluniau gwirfoddoli CHTH, ac yn rhoi adborth iddynt am effaith eu cyfraniad.

- **Partneriaid Trydydd Sector, Sector Cyhoeddus a Sector Preifat, gan gynnwys ein partneriaid yn y maes Cyfiawnder Troseddol.**

Byddwn yn ymgysylltu er mwyn nodi cyfleoedd ar gyfer gwaith ymgysylltu ar y cyd a rhannu negeseuon allweddol gan y CHTH â nhw fel eu bod nhw'n medru eu rhannu â'u rhanddeiliaid.

- **Partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys y pedwar Awdurdod Lleol, Byrddau Iechyd, y Gwasanaeth Tân, Adnoddau Naturiol Cymru a gwasanaethau cyhoeddus eraill.**

Fel uchod, byddwn yn ymgysylltu er mwyn nodi cyfleoedd ar gyfer gwaith ymgysylltu ar y cyd a rhannu negeseuon allweddol gan y CHTH â nhw fel eu bod nhw'n medru eu rhannu â'u rhanddeiliaid.

- **Cynghorwyr Sir, Tref a Chymuned, Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol**  
Byddwn ni'n ymgysylltu â nhw er mwyn rhoi gwybodaeth iddynt am yr hyn mae'r CHTH yn gwneud yn eu hardal a darparu cyswllt rhwng yr Heddlu a chynrychiolwyr cymunedol, ac er mwyn iddyn nhw roi gwybod i ni am unrhyw faterion lleol.
- **Staff Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU**  
Bydd Arweinwyr Polisi'n ymgysylltu â swyddogion o'r llywodraeth er mwyn sicrhau bod y CHTH yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau a newidiadau deddfwriaethol.
- **Y Cyfryngau**  
Byddwn ni'n defnyddio cyfryngau lleol a chenedlaethol i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo gwaith y Swyddfa a'r CHTH, fel yr amlinellir yn ein Dulliau Cyfathrebu ac Ymgysylltu uchod.

## Gwerthuso a Mesur Llwyddiant

Bydd gwerthuso a mesur llwyddiant yn hollbwsig fel ein bod ni'n medru mesur effaith ein gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu. Bydd yn helpu i nodi'r hyn sy'n gweithio, yr hyn sydd ddim yn gweithio, a sut fedrwn ni wella.

Budd ein dulliau gwerthuso'n cael eu cynnwys wrth gynllunio a gweithredu cyfathrebu ac ymgysylltu.

Byddwn ni'n ystyried Deg Egwyddor Ymgysylltu Cyfranogaeth Cymru (gweler Atodiad B) fel arf ar gyfer mesur llwyddiant ein dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu, yn ogystal â'r meini prawf sy'n deillio o'r amcanion a amlinellir uchod, sef:

- Codi lefel ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o rôl y Comisiynydd, a fydd yn cael ei mesur drwy ein harolwg cyhoeddus ar ganfyddiad preswylwyr o blismona
- Lefel gynyddol o adborth, diddordeb a chysylltiad gan y cyhoedd yng ngwaith y Comisiynydd
- Effeithiolrwydd cynyddol gwaith partner

Byddwn ni hefyd yn dadansoddi sylw yn y wasg a'r cyfryngau fel ein bod ni'n medru mesur effaith ein hymdrechion o ran cyfathrebu. Byddwn ni'n anelu i olrhain metrigau megis crybwylliadau yn y cyfryngau, dadansoddiad o deimladau, tôn y sylw, a chynulleidfa.

O ran Cyfryngau Digidol, byddwn ni'n defnyddio amrediad o arfau dadansodol i fonitro ein dulliau ymgysylltu a chyfathrebu digidol, gan gynnwys traffig y wefan, sawl tro y gwelir

tudalen, cyfradd bowns, faint o amser a dreulir ar y dudalen, dilynwyr cyfryngau cymdeithasol, faint o bobl sy'n hoffi negeseuon, faint o bobl sy'n rhannu negeseuon, faint o bobl sy'n rhoi sylwadau ar negeseuon, a chyfraddau clicio drwodd. Byddwn ni'n adolygu'r data a gesglir gan yr arfau dadansoddol i nodi unrhyw dueddiadau, patrymau a mewnwediadau sy'n medru hysbysu a gwella ein dulliau ymgysylltu a chyfathrebu drwy'r cyfryngau digidol.

Yn ogystal, bob chwarter, byddwn ni'n cyflwyno tystiolaeth i'r CHTh a'r Tîm Gweithredol, ynghyd â'r Panel Heddlu a Throseddu, am y ffordd yr ydym yn cefnogi'r CHTh i arfer dyletswyddau cyfreithiol y rôl, fel y'u nodir yng Ngorchymyn Protocol Plismona 2011.

**Atodiad 1: Cynllun Gweithredu**

Defnyddir y templed cynllun gweithredu isod gan fel cynllun gwaith ar gyfer gweithredu'r strategaeth.

<b>Maes Cyfathrebu ac Ymgysylltu</b>	<b>Nod</b>	<b>Dull</b>	<b>Llwyfan</b>	<b>Dulliau gwerthuso</b>
<b>Ymgynghoriadau Cyhoeddus</b>				
<b>Praesept</b>				
<b>Ymgyrchoedd Ymwybyddiaeth</b>				
<b>Gwefan</b>				
<b>Cylchlythyr a bwletinau</b>				
<b>Cyfryngau Cymdeithasol</b>				
<b>Cysylltiadau â'r Wasg a'r Cyfryngau</b>				
<b>Ymgysylltu ag leuenctid</b>				
<b>Ymgysylltu â Dioddefwyr</b>				
<b>Cynadleddau</b>				
<b>Cydraddoldeb ac Amrywiaeth</b>				

# EGWYDDORION CENEDLAETHOL AR GYFER YMGYSYLLTU 'R CYHOEDD YNG NGHYMRU



## 1 Cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth

Mae ymgysylltu'n rhoi gwir gyfle i ddylanwadu ar bolisiau, ar gynllunio gwasanaethau ac ar gyflwyno gwasanaethau o gyfnod cynnar.

## 2 Annog a galluogi pawb a effeithir i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny

Cynhwysir y bobl a effeithir gan fater neu newid mewn cyfleoedd i ymgysylltu fel unigolion neu fel rhan o grŵp neu gymuned, ac mae eu safbwyntiau'n cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

## 3 Cynllunnir a chyflwynir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol

Mae'r broses ymgysylltu'n glir ac yn cael ei chyfathrebu i bawb mewn ffordd hawdd i'w deall ac o fewn amserlen resymol. Hefyd, defnyddir y dull/iau mwyaf addas ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan.

## 4 Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol

Dylai sefydliadau gyfathrebu â'i gilydd a chydweithio lle bo modd er mwyn sicrhau bod amser pobl yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn effeithlon.

## 5 Ni fydd unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall

Mae pobl mewn sefyllfa dda i gymryd rhan yn y broses ymgysylltu oherwydd mae gwybodaeth berthnasol sydd wedi'i haddasu i ddiwallu eu hanghenion ar gael iddynt yn hwylus.

## 6 Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan

Gall pobl ymgysylltu'n hawdd oherwydd mae unrhyw rwystrau i wahanol grwpiau o bobl yn cael eu datgan ac yn cael sylw.

## 7 Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol

Dylai'r prosesau ymgysylltu geisio datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder y cyfranogwyr i gyd.

## 8 Rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol

Darperir hyfforddiant, cyfarwyddyd a chefnogaeth briodol er mwyn galluogi'r cyfranogwyr i gyd i ymgysylltu'n effeithiol, yn cynnwys cyfranogwyr cymunedol a staff.

## 9 Mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad

Rhoddir adborth amserol i'r cyfranogwyr i gyd am y safbwyntiau a fynegwyd ganddynt a'r trafodaethau a'r camau gweithredu a gafwyd o ganlyniad; dylai dull a ffurf yr adborth roi ystyriaeth i hoffterau'r cyfranogwyr.

## 10 Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu

Dylid monitro a gwerthuso profiadau pobl o'r broses ymgysylltu er mwyn mesur ei llwyddiant o ran ymgysylltu pobl ac effeithiolrwydd eu cyfraniad; dylid rhannu'r gwersi a ddysgir a'u defnyddio mewn ymgysylltu yn y dyfodol.

Galodd yr egwyddorion hyn eu datblygu gan Cyfranogaeth Cymru trwy weithio gyda TPAS Cymru, o dan arweiniad partneriaeth Cyfranogaeth Cymru. Cawsant eu cymeradwyo gan Brit Weinidog Cymru, Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC ar ran Llywodraeth Cymru. Mae arweiniad pellach ar yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gael o

[www.participationcymru.org.uk](http://www.participationcymru.org.uk)

Mawrth 2011